Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 10.06.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIGWYDDIAD: Manteisio'n llawn ar gyfleoedd busnes ar Lwybr Arfordir Cymru 21 Mehefin 2022

Cynhelir digwyddiad busnes wedi'i anelu at y sector lletygarwch a thwristiaeth ar y llwybr, neu yn yr ardal gyfagos, yng Ngwynedd, ar 21 Mehefin 2022 yng Nghanolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn, Llithfaen. Bydd cyfle i glywed diweddariadau am y llwybr a gwrando ar siaradwyr gwadd gan gynnwys Daloni Metcalfe, perchennog Cwt Tatws, llety arfordirol a siop yn Nhudweiliog a Gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn, sy'n cynnig gwasanaeth bws hyblyg i gerddwyr. Mae mwy o fanylion ar gael ar:

https://bit.ly/3NAwehL

I archebu eich lle, ewch i:
https://bit.ly/3Q59uZb

# GWOBRAU: 2022 Fast Growth 50 Cymru

Mae menter Fast Growth 50 Cymru yn hyrwyddo busnesau twf uchel sy’n gwneud cyfraniad anghymesur i swyddi a chreu cyfoeth, ac mae wedi’i sefydlu’n gadarn fel Y wobr y mae busnesau entrepreneuraidd yng Nghymru yn anelu ati. Cyflwynir gwobrau i’r cwmnïau sy’n tyfu gyflymaf ym mhob un o sectorau allweddol economi Cymru, yn ogystal â dyfarniadau unigol am dwf hirdymor cynaliadwy. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau gwobrau 2022 yw 31 Gorffennaf 2022. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.fastgrowth50.com/

Mae erthygl gan Business Live am Fast Growth 50 ar gael ar:
https://bit.ly/39d7ddQ

# GWOBRAU: Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2022

Mae ceisiadau ar gyfer Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2022 ar agor hyd at 1 Gorffennaf 2022. Mae entrepreneuriaid cymdeithasol, arweinwyr busnes, cydweithredwyr sy’n gweithio’n galed ac arloeswyr talentog y sector busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu gwahodd i wneud cais. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://cy.cwmpas.coop/gwobrau-bcc-22/

# DYSGU: Rhaglen Clystyrau Darbodus Toyota

Mae Llywodraeth Cymru a Chanolfan Rheoli Darbodus Toyota, Glannau Dyfrdwy, yn cynnig cyfle i fusnesau dderbyn cefnogaeth

wedi'i hariannu'n rhannol i wella cynhyrchiant trwy egwyddorion rheoli darbodus. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/rhaglen-clystyrau-darbodus-toyota

# IECHYD a DIOGELWCH: Gweithiwr tymhorol

Gan fod llawer o swyddi tymhorol yn cael eu llenwi yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'n bwysig bod cyflogwyr yn diogelu iechyd a diogelwch gweithwyr yr economi gig, gweithwyr asiantaeth a gweithwyr dros dro, gan bod gweithwyr yr un mor debygol o gael damwain yn y chwe mis cyntaf mewn gweithle ag y maent yn ystod gweddill eu bywyd gwaith. Mae gan wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) arweiniad i helpu defnyddwyr a chyflenwyr gweithwyr asiantaeth a gweithwyr dros dro ddeall eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch. I gael mwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3zuTiuo

# DIGWYDDIAD: Data Mawr – Sut Gall eich Busnes Elwa 27 Mehefin 2022

Bydd Busnes@LlandrilloMenai a Chanolfan Rheolaeth Prifysgol Bangor yn cynnal digwyddiad busnes unigryw ar 27 Mehefin 2022 (9:00am-12:30pm), ym Mharc Menai, Bangor LL57 4HJ. Bydd cyfle i glywed gan arbenigwyr sut gall 'data mawr' fod o fudd i'r gymuned busnesau bach a chanolig. Am ragor o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://bit.ly/3xA1DLV

# DYSGU: Dechrau Rhywbeth Da – cwrs hyfforddi 4 wythnos

Mae'r cwrs ar-lein pedair wythnos, Dechrau Rhywbeth Da, sy'n dechrau ar 15 Mehefin 2022, ar gyfer unrhyw un yng Nghymru

sydd am ddatblygu seiliau menter gymdeithasol ac ar agor i unrhyw un sydd yn y cam syniadau, sydd â diddordeb mewn dysgu am gychwyn busnes sydd ag elw er daioni, pobl a'r blaned yn sylfaen iddo. Mae'r cwrs ar gael mewn sesiynau prynhawn neu nos. Mae gwybodaeth pellach a manylion sut i archebu isod:

- Cwrs prynhawn:
  https://bit.ly/3NHw9cb

- Cwrs nos:
  https://bit.ly/3QhuGLp

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru